

Ymlaen:

Cwestiynau Cyffredin

Chymrodoriaeth Windsor wedi lansio rhaglen interniaeth newydd, gan gynnig pedwar cyfle i unigolion sy'n ystyried eu hunain yn Ddu, Asiaidd a/neu o Leiafrif Ethnig.

Mae'r Senedd wedi ymrwmo i ddenu talent o ystod eang o gefndiroedd ac mae'n cydnabod gwerth adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru.

Mae'r rhaglen interniaeth yn ffordd wych o ennill profiad gwaith â thâl mewn amgylchedd cyffrous ac unigryw sydd wrth wraidd democratiaeth Cymru.

Ynglŷn â'r interniaeth

Rydym yn cynnig interniaeth hyfforddiant â thâl am 12 mis i bedwar o raddedigion o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Gallwch ddewis ymgeisio am leoliadau mewn gwahanol feysydd yn y sefydliad.

Er nad yw'r interniaeth yn cynnig nac yn gwarantu rôl barhaol ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis, y nod yw y byddwch yn datblygu'r sgiliau ac yn ennill y profiad sy'n ofynnol ar gyfer rôl gyflogedig yng Nghomisiwn y Senedd neu mewn man arall.

Mae hyfforddiant yn y Senedd yn golygu y byddwch chi wrth wraidd gwleidyddiaeth Cymru, gan ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth ar y ffordd orau i lywio a chynorthwyo gweithle prysur a chyffrous lle mae deddfau Cymru yn cael eu llunio. Mae'r Interniaeth yn gyfle gwych sydd wedi'i gynllunio i roi'r ddealltwriaeth a'r gallu i chi ddatblygu o fewn sefydliad amrywiol a chynhwysol i chi.

Y Rhaglen

Beth yw Rhaglen Interniaeth y Senedd?

Mae rhaglen interniaeth y Senedd yn rhaglen hyfforddi gyffrous 12 mis o hyd ar gyfer graddedigion sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir Du, Asiaidd a/neu leiafrif ethnig. Yn ystod y rhaglen hyfforddi, bydd yr interniaid nid yn unig yn cael mewnwelediad i'r ffordd y mae Comisiwn y Senedd yn gweithredu ac yn cefnogi busnes seneddol Aelodau o'r Senedd, ond byddant hefyd yn dysgu'r sgiliau, y galluoedd a'r



Pam mai dim ond pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n gymwys i wneud cais?

Am nifer o flynyddoedd, mae ein hadroddiadau blynyddol ar amrywiaeth a chynhwysiant wedi dangos nad oes gan ein gweithlu gynrychiolaeth ddigonol o ran pobl sy'n nodi eu bod yn dod o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig ymhlith uwch swyddogion. Mae rhan fwyaf y cydweithwyr sy'n nodi eu bod o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gweithio mewn rolau ar raddau is y sefydliad - mae 81 y cant o'r staff sy'n nodi eu bod yn dod o'r cefndiroedd hyn yn y ddau fand cyflog isaf. Mae'r dosbarthiad strwythurol hwn hefyd yn cyfrannu at fwllch cyflog ethnigrwydd y Comisiwn, sydd gryn dipyn yn fwy na'r ffigurau diweddar ar gyfer y bwlch cyflog ethnigrwydd yng Nghymru gyfan. Diben y cynllun hwn, a'r rheswm pam mai dim ond pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig all wneud cais, yw cynorthwyo Comisiwn y Senedd i barhau i fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r ddau rwystr canfyddedig uchod y mae'r cymunedau hyn yn eu hwynebu.

Beth yw rôl Cymrodoriaeth Windsor yn y rhaglen hon?

Mae'r Senedd yn cydweithio â Chymrodoriaeth Windsor i ddenu, canfod a llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'r rhaglen interniaeth. Byddant hefyd yn rhoi cymorth bugeiliol a help i baratoi ar gyfer cyfweiliad o'r amser pan rydych yn gwneud eich cais. Ar ôl i chi gael cynnig interniaeth, byddant yn darparu hyfforddiant ynghylch arweinyddiaeth a sesiynau mentora bugeiliol, yn ogystal â chefnogaeth yn ystod eich interniaeth yn y Senedd.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais?

3 Ionawr 2022 am 11.59PM (GMT). Rydym yn argymhell cyflwyno'ch cais cyn yr amser hwn i ganiatáu ar gyfer unrhyw faterion technegol all godi.

Beth yw'r Sesiynau Mewnwelediad a sut allaf gofrestru ar eu cyfer?

Cynhelir y Sesiynau Mewnwelediad yn rhithwir a byddant yn rhoi cyfle i ddarpar ymgeiswyr ofyn cwestiynau am y rhaglen a dysgu mwy am yr interniaeth. Caiff y sesiynau eu hwyluso gan Gymrodoriaeth Windsor a gallwch [gofrestru yma](#).

Cymhwysra

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

I fod yn gymwys ar gyfer yr interniaeth, rhaid i chi fodloni'r meini prawf a ganlyn:

- Mae gennych yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiadau. Sylwer nad yw'r Senedd yn noddi fisâu gwaith
- Rydych yn byw yng Nghymru
- Rydych yn dod o gefndir Du, Asiaidd a/neu leiafrif ethnig
- Rydych wedi byw yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon am o leiaf tair blynedd (mae hyn yn ofynnol ar gyfer y broses fetio diogelwch cenedlaethol)
- Rydych wedi graddio o'r brifysgol erbyn i'r cynllun ddechrau
- Rydych ar gael i wneud yr interniaeth rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023

A fyddaf yn cael swydd yn y Senedd ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus?

Nid yw Comisiwn y Senedd yn gwarantu swydd ar ddiwedd yr interniaeth. Fodd bynnag, diben yr interniaeth yw cynyddu eich siawns o fod yn llwyddiannus wrth ymgeisio am rôl uwch naill ai yng Nghomisiwn y Senedd neu unrhyw sefydliad arall drwy gynnig lleoliad galwedigaethol pwrpasol a fydd yn datblygu eich sgiliau, eich galluoedd a'ch cymwyseddau.

A yw'r math o radd sydd gennyf yn bwysig?

Nid oes yn rhaid i chi fod â gradd mewn pwnc penodol i wneud cais am unrhyw un o'n pedair interniaeth. Os oes gennych radd mewn pwnc sy'n berthnasol i'r interniaeth rydych chi'n ymgeisio amdani, gallai hynny roi rhywfaint o wybodaeth ymlaen llaw i chi am yr hyn y gallech ddod ar ei draws yn ystod eich amser gyda ni, ond does dim ots os na. Mae hwn yn gyfle i raddedigion yn unig, felly mae'r meini prawf yn nodi bod yn rhaid i chi fod wedi graddio o'r brifysgol erbyn i'r cynllun ddechrau (mis Ebrill 2022) – ni fydd pwnc eich gradd na lefel y cymhwyster a gawsoch yn effeithio ar ein penderfyniad.

Oes yn rhaid i mi fod yn byw yng Nghymru i fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen?

Nid oes yn rhaid i chi hanu o Gymru i wneud cais am y cynllun, ond mae'n rhaid i chi fod yn byw yng Nghymru i fod yn gymwys.

Nid oes gennyf brofiad gwaith perthnasol – a fydd hynny'n effeithio ar fy nghais?

Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at bobl sydd wedi graddio yn ddiweddar, neu sydd wedi graddio ac sydd eisoes wedi treulio peth amser ym myd gwaith. Nid oes yn rhaid i chi fod ag unrhyw wybodaeth na

phrofiad blaenorol i wneud cais, ac ni fydd diffyg profiad gwaith perthnasol yn cael effaith negyddol ar eich cais.

Beth mae'r broses ddethol yn ei olygu?

Nod y broses ddethol yw asesu'r holl gymwyseddau a sgiliau hanfodol a fydd yn eich galluogi i lwyddo yn ystod y rhaglen.

- **Cam 1** – Llenwi ffurflen gais ar-lein.
- **Cam 2** – Gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gymryd rhan mewn Canolfan Asesu rithwir gyda Chymrodoriaeth Windsor, a fydd yn cynnwys cyflwyniad a chyfweliad.
- **Cam 3** – Cam olaf: cyfweliad rhithwir gyda thîm y Senedd.
- **Cam 4** – y Senedd yn dethol yr interniaid llwyddiannus ac yn rhoi gwybod iddynt.
- **Cam 5** – Cynefino a fetio diogelwch (mae pob cynnig yn ddibynnol ar gliriad diogelwch).

Beth yw'r broses clirio diogelwch? Pa ddogfennau sydd angen i mi eu darparu a phryd?

Yn ystod rhan gyntaf y broses, bydd swyddfa fetio Comisiwn y Senedd yn gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus lenwi ffurflen Datgan Cofnod Troseddol a rhoi copi o lun adnabod (Pasbort/trwydded yrru/cerdyn biometrig). Mae'n bosibl y bydd y Senedd hefyd yn gofyn am ddogfennaeth 'hawl i weithio' ar y pwynt hwn (os oes angen). Ar ôl i'r Swyddog Fetio wneud y gwiriad cychwynnol, gwahoddir yr ymgeisydd i gyfweliad fetio naill ai ar y safle neu drwy Microsoft Teams. Gall ymgeiswyr ddewis dyddiad ac amser rhwng 08:30 a 16:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener ar gyfer y cyfweliad hwn, yn dibynnu ar argaeledd staff y swyddfa fetio. Bydd y swyddfa fetio yn cysylltu â Chymrodoriaeth Windsor i ddeall a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar ôl cyrraedd y cam hwn.

Yn ystod y cyfweliad fetio, bydd yn rhaid i ymgeiswyr gyflwyno dwy ddogfen i ddangos eu cyfeiriad, ynghyd â llun adnabod gwreiddiol ac unrhyw ddogfennaeth 'hawl i weithio' - bydd ymgeiswyr yn cael gwybod beth sy'n cyfrif fel dogfennau adnabod dilys. Yn ystod y cyfweliad, bydd y swyddfa fetio yn esbonio'r broses ar gyfer cwblhau'r cais am wiriad wrthderfysgaeth a gwiriad diogelwch. Os cynhelir y cyfweliad drwy Teams, bydd y swyddfa fetio fel arfer yn gofyn i ymgeiswyr gofrestru gyda gwasanaeth Fetio Diogelwch y Deyrnas Unedig i sicrhau eu bod wedi mewngofnodi i'r system ac yn deall yr hyn sy'n ofynnol i gwblhau'r cais. Fel arall, os cynhelir y cyfweliad ar y safle, bydd y Swyddog Fetio yn egluro'r hyn sy'n ofynnol i gwblhau'r cais. Rhoddir holiadur diogelwch ac awgrymiadau defnyddiol i'r ymgeiswyr i'w cynorthwyo yn ystod y broses.

Wedyn, bydd y swyddfa fetio yn egluro pa mor hir y mae'r broses yn ei gymryd a phryd y disgwylir i'r cais am gliriad gael ei ddychwelyd fel y gellir penderfynu a ddylid clirio'r ymgeisydd ai peidio.

Mae gen i anabledd sy'n golygu y bydd angen addasu'r broses recriwtio. Beth yw'r broses ar gyfer hyn?

- I sicrhau proses recriwtio deg a diduedd, bydd y Senedd a Chymrodoriaeth Windsor yn gwneud ein gorau i wneud unrhyw addasiadau rhesymol sydd o bosibl eu hangen arnoch oherwydd eich anabledd.
- Wrth wneud eich cais, llenwch yr adran berthnasol i ddweud wrthym pa addasiadau neu gymorth y gallai fod eu hangen arnoch yn ddiweddarach yn y broses recriwtio. Er enghraifft, efallai y bydd angen sicrhau mynediad ar gyfer cadair olwyn ar gyfer y cyfweliad, neu, os ydych yn fyddar, efallai y bydd angen i Weithiwr Proffesiynol Gwasanaeth Iaith fod yn bresennol.
- Mae'r Senedd yn gyflogwr achrededig Hyderus o ran Anabledd. Os ydych yn bodloni meini prawf sylfaenol y broses ymgeisio a'r ganolfan asesu, a'ch bod wedi nodi bod gennych chi anabledd, mae hyn yn golygu y byddwch chi'n cael cyfweliad gyda'r Senedd yn awtomatig. Bydd yr interniaid wedyn yn cael eu dewis yn ôl eu rhinweddau yn y cyfweliad.
- Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn cael cyfle i drafod unrhyw addasiadau angenrheidiol â'n cynghorwr iechyd galwedigaethol, a byddwch hefyd yn cael asesiad llawn ar gyfer defnyddio offer sgrin arddangos. Bydd darparu'r wybodaeth hon yn ein helpu i ystyried sut y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion yn rhesymol.

Yn ystod y rhaglen

Os caf fy nerbyn, sut brofiad fyddaf yn ei gael?

- **Cefnogaeth gan Gymrodoriaeth Windsor** – Bydd Cymrodoriaeth Windsor, ein partneriaid yn y fenter hon, yn cynnig cymorth bugeiliol i chi drwy gydol y rhaglen.
- **Mentora** – Byddwch yn cael hyfforddiant ac arweiniad gan weithwyr profiadol y Senedd a Mentor bugeiliol o Gymrodoriaeth Windsor yn ystod 12 mis yr interniaeth.
- **Meithrin sgiliau** – Byddwch yn cael cyfle i feithrin sgiliau technegol a phroffesiynol allweddol, yn ogystal â sgiliau arwain, drwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu.
- **Datblygu gyrfa** – Byddwch yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu gyrfa i'ch helpu i baratoi ar gyfer gyrfa ar ôl graddio.

Rhagor o Wybodaeth

Pwy allaf gysylltu â nhw i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennyf?

- Os oes gennych gwestiwn, anfonwch e-bost at Roda Aden (Rheolwr Rhaglenni Cymrodoriaeth Windsor): internships@windsor-fellowship.org. Rydym yn croesawu cwestiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ble allaf ddysgu mwy am weithio yn y Senedd?

- Gallwch ddarllen sylwadau cyflogeion Comisiwn y Senedd ar weithio yn y Senedd yn yr [Adroddiad ar yr Arolwg Pobl \(2020\)](#);
- Hefyd, gallwch ddysgu mwy am Gomisiwn y Senedd fel cyflogwr drwy [fynd i'w gwefan](#);
- Gallwch ddilyn y Senedd a chyfathrebu â hi drwy [Twitter](#);
- Gallwch bori drwy safle [LinkedIn](#) y Senedd;
- Gallwch 'hoffi' y Senedd ar [Facebook](#);
- Gallwch ddilyn y Senedd ar [Instagram](#);
- Gallwch ddarllen am wahanol agweddau ar waith Comisiwn y Senedd a busnes y Senedd drwy edrych ar eu [herthyglau blog](#).